


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerk@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

15 Mehefin 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 22 MEHEFIN 2015** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Dafydd Williams

Dafydd Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. ADRODDIAD Y MAER

4. ADRODDIADAU'R AELODAU

5. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2015.

6. MATERION YN CODI

7. PWYLLGOR AMWYNDERAU

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2015.

8. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2015.

9. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

I gadarnhau manylion aelodau fel cywir ac ar gyfer yr aelodau yn unig (copi pinc)

10. AELODAETH PWYLLGORAU 2015 / 2016

I ystyried aelodaeth o'r gwahanol bwyllgorau (copi melyn)

11. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2015 / 2016

I adolygu a diweddarau rhestr o gynrychiolaeth y Cyngor Tref (copi glas).

12. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(1) MENTER IAITH SIR DDINBYCH

(a) i dderbyn e-bost gan y Mudiad uchod yn gofyn am y cyfraniad blynyddol o £500.00 tuag at hybu defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun – mae £500.00 eisoes yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

(b) i dderbyn ac ystyried e-bost gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol ychwanegol o £1,500.00 tuag at hybu defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun (copi glas)

(2) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH

I dderbyn ac ystyried llythyr, ynghyd a Chynllun Cyllid, oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn gofyn am gyfraniad ariannol ychwanegol o £1,000 tuag at y digwyddiad eleni (copiau glas).

13. NANTCLWYD Y DRE – GARDD YR ARGLWYDD

I gadarnhau talu infois am £4,000 sef cyfraniad y Cyngor Tref tuag at y prosiect uchod – mae'r swm eisoes yn y gyllideb.

14. COD YMDDYGIAD

I dderbyn llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn amgau 'Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad' gan gynnwys Arweiniad i aelodau o gynghorau cymunedol.

**15. GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2013 (DEMOCRATIAETH)
(CYMRU)**

Adrannau 55 – 57

CYNGHORAU CYMUNED A THREF - MYNEDIAD I WYBODAETH

I dderbyn e-bost gan lywodraeth Cymru yn berthnasol i arweiniad statudol ar Fynediad i wybodaeth ar Gynghorau Cymuned a Thref.

**GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2014 (DEMOCRATIAETH)
(CYMRU)**

Adran 58

COFRETRAU O FUDDIANNAU AELODAU

Mae'r dyletswydd i sefydlu a chynnal y gofrestr buddiannau aelodau yn trosglwyddo o'r swyddog monitro i'r swyddog priodol o'r Cyngor Cymuned neu Dref – mae'n rhaid i'r gofrestr buddiannau gael ei chyhoeddi hefyd ar ffurf electronig, h.y. ar wefan y Cyngor (copi yn amgaeedig i'w llenwi gan yr aelodau).

16. DATGANIAD ARIANNOL

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31^{ain} Mai 2015 (copi gwyrdd).

17. CYFRIFON I'W TALU

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

735	Sandra Williams	Cyfieithu		90.00
736	Inland Revenue	Treth ac Yswiriant Gwladol		137.04
737	I.T. Williams Co. Ltd	Marchnad Rhuthun – cludo rhwystrau i Sgwar Sant Pedr	*	180.00
738	Dafydd Williams	Arian Parod – stampiau ayyb		24.60
739	Cennin Ltd	Sefydlu e-bost ar y cyfrifiadur newydd	*	84.00
740	Ground Control	Torri Glaswellt -Mai 2015	*	462.07
741	Dafydd Williams	Teis plastig ar gyfer Baneri'r Dref	*	15.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £123.51)

18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I gadarnhau Nos Lun, 27 Gorffennaf 2015 fel dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

